**Carl Sargeant AC / AM**
**Y Gweinidog Cyfoeth Naturiol**
**Minister for Natural Resources**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Eich cyf/Your ref
Ein cyf/Our ref LF/CS/0413/15

David Melding AC
Cadeirydd – Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol
Tŷ Hywel
Bae Caerdydd
CF99 1NA

23 Ebrill 2015

Annwyl David

**Rheoliadau Trwyddedu Amgylcheddol (Cymru a Lloegr) (Diwygio) 2015**

Rwyf yn ysgrifennu atoch mewn ymateb i'ch llythyr dyddiedig 18 Mawrth am y Rheoliadau uchod.

Fel y gwelodd y Pwyllgor yn ei gyfarfod ar 9 Mawrth, cafodd erthygl 14(5)-(9) o'r Gyfarwyddeb effeithlonrwydd ynni ei throsi ym mhob rhan o'r DU ar ôl 5 Mehefin 2014. O ystyried hynny, nid wyf yn rhagweld y bydd unrhyw risg anghymesur i Lywodraeth Cymru. Er hynny, mae'n hanfodol bod yr awdurdodau perthnasol yn cydweithio er mwyn sicrhau na fydd sefyllfa debyg yn codi yn y dyfodol.

Fel y nodwch, mae fframwaith trwyddedu amgylcheddol cyffredin ar draws Cymru a Lloegr ar hyn o bryd. Mae Rheoliadau Trwyddedu Amgylcheddol (Cymru a Lloegr) 2010 wedi cael eu diwygio sawl gwaith ers iddynt gael eu gwneud gyntaf, ac roedd rhai o'r diwygiadau hynny'n sylweddol. Mae hynny wedi arwain at glytwaith o ddeddfwriaeth, ac nid oes unrhyw fersiwn gyfredol, awdurdodol, wedi'i chydgrynhoi y gall rheoleiddwyr a'r diwydiannau rheoleiddiedig gyfeirio ati. O'r herwydd, mae fy adran yn gweithio gyda Defra ar gynigion i baratoi fersiwn wedi'i chydgrynhoi o'r Rheoliadau presennol. Byddai gwahanu'r drefn ar gyfer Cymru a Lloegr wrth i'r gwaith hwnnw fynd rhagddo yn arwain at fwy o gymhlethdod ac ansicrwydd i'r rheoleiddiwr ac i'r rheini sy'n cael eu rheoleiddio.

Yn gywir

Carl.

**Carl Sargeant AC / AM**
Y Gweinidog Cyfoeth Naturiol
Minister for Natural Resources

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

English Enquiry Line 0300 0603300
Llinell Ymholiadau Cymraeg 0300 0604400
Correspondence.Carl.Sargeant@wales.gsi.gov.uk

*Wedi'i argraffu ar bapur wedi'i ailgylchu (100%)*
*Printed on 100% recycled paper*